| Eitem / Item | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|
| 3 | 16-09-2025 | |
| Teitl / Title | | Er / Ar gyfer |
| Strwythur Rhanbarthol y BGC – Papur Opsiynau | | *Trafodaeth a chytundeb* |

Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 03-03-25, gofynnodd BGC Ceredigion i swyddogion cymorth drafod gyda chydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro beth fyddai'r posibiliadau i gryfhau strwythur a gwaith y BGC ar draws y Rhanbarth.

Cyfarfu swyddogion o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys yn y lle cyntaf ond roedd Powys o'r farn na fyddai angen eu cynnwys yn y trafodaethau hyn. Er hynny, mae ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio gyda rhanbarth De-orllewin Cymru ar waith thematig penodol yn y dyfodol.

Mae'r papur opsiynau, yn Atodiad 1, wedi'i lywio gan ymchwil i strwythurau BGC sydd ar waith ledled Cymru, ac o drafodaethau gyda swyddogion cymorth eraill y BGC. Y gobaith yw y bydd y papur yn cefnogi trafodaeth o fewn pob BGC a rhwng y tri bwrdd.

**Yr Opsiynau**

Mae'r papur opsiynau hwn yn amlinellu pedwar opsiwn posibl ynghylch sut y gall y BGC ddewis gweithredu yn y dyfodol. Y rhain yw:

**Opsiwn 1** Cynnal trefniadau cyfredol
**Opsiwn 2** Sefydlu uno ffurfiol rhwng y tri BGC
**Opsiwn 3** Sefydlu cydweithrediad ffurfiol rhwng y tri BGC
**Opsiwn 4** Sefydlu uno neu gydweithrediad, rhwng dau BGC yn unig

Mae pob opsiwn yn cael ei gyflwyno gyda'i fanteision, risgiau ac ystyriaethau gweinyddol cysylltiedig, er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus gan y BGC.

Ar ôl ymchwilio i'r sefyllfa ledled Cymru, mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bodoli o ran sut mae BGC yn cael eu strwythuro a sut mae Cynlluniau Llesiant Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn sawl dehongliad a dulliau gwahanol, wedi'u teilwra i weddu i anghenion lleol a rhanbarthol. Felly, mae'n bwysig nodi y gellir cyflwyno hyblygrwydd i unrhyw opsiwn a fyddai'n cael ei symud ymlaen yn y pen draw.

Gwahoddir y tri bwrdd i ystyried yr opsiynau a nodir yn y papur a dod i farn ar opsiwn y maent yn credu sy'n gweddu orau i'r ffordd maen nhw'n dymuno gweithredu yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

| |
|---|
| Nid ydynt yn hysbys yn llawn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir gan Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. |
| Argymhellion / Recommendations |
| I'r BGC i:<br>1. Ystyried a thrafod y papur opsiynau.<br>2. I gytuno ar opsiwn cychwynnol a ffefrir.<br>3. Gofyn i bob aelod o'r BGC gymryd yr opsiwn y cytunwyd arno gan y bwrdd yn ôl i'w sefydliadau unigol i'w gymeradwyo os oes angen* ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y BGC.<br>4. Caniatáu i swyddogion cymorth rannu'r opsiwn cychwynnol y cytunwyd arno gan y bwrdd gyda chydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.<br><br>*(efallai y bydd yn ofynnol gan aelodau statudol yn unig)* |
| Atodiadau / Attachments |
| Atodiad 1 – Strwythur PSB Rhanbarthol – Papur Opsiynau |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| Tîm Cefnogi BGC |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# PAPUR OPSIYNAU BGC

## 16 MEDI 2025


Neil Coetzee
Cydlynydd Data Rhanbarthol

## Cynnwys

Cyd-destun ........ 1

Cyflwyniad ........ 2

**Opsiwn Un - Dim Newid i Strwythur BGC Cyfredol** ........ 2

**Opsiwn Dau - Pob un o'r tri BGC yn uno** ........ 3

**Opsiwn Tri A) – Y tri BGC yn cydweithio** ........ 5

**Opsiwn tri b) Strwythur cydweithredol posibl – grŵp cydlynu strategol** ........ 6

**Opsiwn Pedwar - Dim ond dau BGC yn dod at ei gilydd** ........ 7

Atodiad 1 ........ 8

Atodiad 2 ........ 11

## Cyd-destun

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf) i gryfhau cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a gwella lles hirdymor cymunedau ledled Cymru. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal BGC sy'n dwyn ynghyd bartneriaid allweddol i asesu anghenion lleol, gosod amcanion a blaenoriaethau a rennir a chyflawni cynlluniau cydgysylltiedig.

Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd ers eu sefydlu yn 2015 ac wedi bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a heriau lleol. Er nad yw'r trefniant gwaith hyd yma rhwng y BGC wedi'i gydnabod yn ffurfiol fel uno neu gydweithrediad, mae ymdrechion cydweithredol sylweddol wedi cael eu cynnal gan gydlynwyr y BGC dros y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, wrth i wasanaethau cyhoeddus wynebu pwysau cynyddol gan newid demograffig, cyfyngiadau cyllidebol a risgiau hinsawdd, mae diddordeb cynyddol i ystyried a allai gwaith rhanbarthol agosach wella effeithiolrwydd BGC trwy gynyddu gweithio ar y cyd a lleihau'r dyblygu ymdrechion. Yn ogystal, gall sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn cyfarfodydd BGC fod yn heriol a gallai'r gofyniad i fynychu nifer o fyrddau fod yn gwneud hyn yn anos i rai sefydliadau partner. Oherwydd y ffactorau hyn, mae BGC Ceredigion wedi gofyn i swyddogion cymorth weithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i ymchwilio ac ystyried yr opsiynau posibl wrth symud ymlaen.

Er bod y tair sir yn rhannu heriau cyffredin y gellid mynd i'r afael â nhw'n well trwy weithio gyda'i gilydd ar yr un pryd, mae heriau lleol sy'n gofyn am atebion wedi'u teilwra. O amgylch Cymru, mae modelau a strwythurau presennol BGC y gellir edrych arnynt a'u dadansoddi i benderfynu ar y cryfderau a'r gwendidau y maent yn eu cyflwyno. Mae angen i strwythur BGC Gorllewin Cymru gydbwyso manteision gweithio rhanbarthol tra'n cadw ffocws clir ar anghenion lleol a dewis opsiwn sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn wedi'i baratoi i gefnogi ystyried trefniadau perthynas yn y dyfodol ar gyfer y tri BGC yng Ngorllewin Cymru. Mae'r ymchwil wedi datgelu cymysgedd o strwythurau ledled Cymru mewn ardaloedd sydd wedi cyfuno o'r blaen. Mae hyn wedi arwain at nodi strwythurau amrywiol, ac mae'r papur yn archwilio'r prif fanteision, risgiau ac anfanteision sy'n gysylltiedig â'r strwythurau hynny yn seiliedig ar brofiadau mewn ardaloedd eraill yng Nghymru;

Opsiwn Un – Dim Newid i Ddigwydd

Opsiwn Dau - Mae pob un o'r tri BGC yn uno

Opsiwn Tri - Y tri BGC yn cydweithio

Opsiwn pedwar - dim ond dau BGC sy'n dod at ei gilydd ac mae un BGC yn penderfynu peidio ag ymuno.

Mae'r papur hefyd yn archwilio'r goblygiadau gweinyddol gyda phob dull gweithredu. Y bwriad yw helpu i lywio trafodaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhanbarth Gorllewin Cymru a chefnogi gwneud penderfyniadau ar y model mwyaf effeithiol a chynaliadwy wrth symud ymlaen ac i sicrhau bod y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu cwrdd â heriau a rennir, parhau i gyflawni eu dyletswyddau ac yn y pen draw wella lles y cymunedau ar draws y tair sir. Gellir dod o hyd i dabl yn Atodiad 1 sy'n crynhoi cynnwys y papur hwn yn un gweledol.

## Opsiwn Un - Dim Newid i Strwythur BGC Cyfredol

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gweld unrhyw newid i'r ffyrdd presennol o weithio a byddai'n golygu y byddai pob BGC yn gweithredu o fewn ei sir ei hun. Byddai eu hunaniaeth yng Nghymru yn aros fel y mae ar hyn o bryd ac yn cael ei gydnabod fel y cyfryw gan aelodau statudol, y llywodraeth a'r cyhoedd.

Byddai gwneud penderfyniadau yn aros ym mhob sir a byddai cynlluniau i gyflawni'r amcanion lles yn parhau i fod yn ôl disgresiwn yr aelodau o fewn y BGC lleol. Byddai cyfarfodydd rhanbarthol yn dal i gael eu cynnal rhwng swyddogion BGC i gasglu diweddariadau a chynnydd ar brosiectau neu gynlluniau a chytundeb cyffredinol i helpu ei gilydd lle bo hynny'n bosibl yn parhau, ond ni fydd polisi ffurfiol ar waith ynghylch cydweithredu anffurfiol. Byddai'r Grant Rhanbarthol Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei weinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y tri BGC.

<u>Manteision</u>

Pan ddaw i newidiadau mewn polisi neu gynlluniau, gall pob BGC ymdrin â hyn ar eu telerau eu hunain a byddai angen cytundeb unfrydol ar sail sirol yn unig.

Gall ffocws lleol aros yn ei le i dargedu meysydd sydd angen sylw.

Ni fydd newid mewn dyletswyddau gweinyddol a dyrannu adnoddau, a gellir datblygu pob ffordd o weithio fel y mae pob ardal yn ei weld yn addas

- Gall pob bwrdd ymdrin ag amseroedd a dyddiadau cau'r Asesiad o Les Lleol yn seiliedig ar eu llwyth gwaith presennol a sut maen nhw'n dymuno mynd i'r afael ag ef

- Gellir pennu a chytuno ar lefel y manylder yn unigol
- Ni fydd tarfu ar brosiectau cyfredol
- Mae atebolrwydd yn parhau o fewn pob BGC unigol

<u>Anfanteision</u>

Mae'r cyfrifoldeb i gynhyrchu Asesiad o Les Lleol, Cynllun Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol dilynol yn tueddu i ddod i'r Awdurdod Lleol o fewn y BGC ac mae'r adnoddau i gynhyrchu'r dogfennau hyn yn cael eu rhoi dan bwysau.

Bydd angen i bob sir gynhyrchu a chyflawni eu hamcanion Cynllun Llesiant eu hunain a allai arwain at dyblygu ymdrechion mewn BGC ledled y rhanbarth.

Aliniad strategol gwannach ar draws Gorllewin Cymru.

Ar hyn o bryd mae cyfranogiad a chynrychiolaeth briodol yn broblem i rai BGC oherwydd nifer y cyfarfodydd y mae angen i sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol fynychu.

- Oherwydd amlder cyfarfodydd ac argaeledd cynrychiolwyr priodol o'r cyrff statudol, gall hyn weld anghysondeb yn yr aelodau sy'n gallu mynychu'r cyfarfodydd ar draws y BGC

Llai o ddylanwad a chydnabyddiaeth ranbarthol oherwydd bod ganddynt BGC ar wahân ar draws ôl troed Gorllewin Cymru.

## Opsiwn Dau - Pob un o'r tri BGC yn uno

Mae uno yn digwydd pan fydd dau neu fwy o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cytuno i uno os ydynt o'r farn y byddai'n eu helpu i gyfrannu at gyflawni yn erbyn y nodau Llesiant o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu rhwymedigaethau uno, a gellir dod o hyd i'r rhain yn Atodiad 2.

Byddai uno’r tri BGC yn gweld y newid mwyaf sylfaenol. Byddai endid newydd yn cael ei ffurfio o ganlyniad i'r tri BGC ddod at ei gilydd i ffurfio un bwrdd, y cyfeirir ato fel "y Bwrdd". Byddai hyn yn golygu cyflwyno Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd, pwyllgor craffu newydd gyda'u Cadeirydd a'u Is-gadeirydd priodol a Thelerau Gorchwyl newydd ar gyfer pob un.

Mae amseru yn chwarae rhan bwysig yn y penderfyniad i uno gan y byddai angen i BGC adolygu eu Asesiadau a Chynlluniau Llesiant presennol a phenderfynu sut mae'r rhain yn parhau os bydd uno yn digwydd yn ystod y cyfnod pum mlynedd presennol h.y. 2023 – 2028.

Byddai strwythur gweinyddol y BGC yn cael ei bennu gan y tri Awdurdod Lleol ac mae hyn yn cymryd gwahanol ffurfiau ar draws y BGC cyfunol presennol yng Nghymru. Er enghraifft, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cylchdroi'r swyddogaethau gweinyddol bob dwy flynedd yn unol â'u cylchdro Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Mae BGC Ynys Môn a Gwynedd wedi penodi tîm cymorth BGC i weithio ar draws y ddau BGC a gweithredu fel pwynt cyswllt canolog sy'n cael eu cyflogi gan Wynedd (gyda chyllid cyfrannol a ddarperir gan Ynys Môn). Ymhellach i hyn, byddai angen adolygiad ar y strwythurau craffu gan y byddai pwyllgor sengl newydd yn cael

ei ffurfio fel rhan o uno. Byddai'r Grant Rhanbarthol Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio gan y BGC unedig.

Manteision;

Mae economïau graddfa yn chwarae rhan fawr o fewn BGC unedig. Byddai aelodau'n ymwybodol o ymdrechion a grwpiau cyflenwi ei gilydd, boed yn ranbarthol neu'n lleol.

Gellir rhannu'r adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu'r Asesiad o Les Lleol, y Cynllun Llesiant Lleol a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ledled y rhwydwaith BGC unol. Gellid gwneud hyn gan ddefnyddio adnoddau presennol neu drwy drefniant cyllido a rennir.

Byddai angen i gyrff cenedlaethol a rhanbarthol fynychu un cyfarfod BGC yn unig yn hytrach na thri. Byddai hyn yn golygu gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd gan y byddai'r Bwrdd yn dod at ei gilydd fel un a byddai'n mynd i'r afael â'r mater o gynrychiolaeth briodol mewn cyfarfodydd.

Byddai adnoddau yn cael eu cyfuno gyda'i gilydd sy'n cynnwys swyddogaethau gweinyddol, arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth a allai fod o fudd i gyflymder ac effeithiolrwydd gwneud penderfyniadau a chyflawni.

Gall uno adeiladu ar berthynas waith gyfredol gyda'r aelodau dan sylw a chryfhau'r cysylltiadau hyn wrth symud ymlaen.

- Nododd BGC Gwent fod y penderfyniad i uno'r pum BGC yn eu hardal wedi'i wneud er mwyn ***"symleiddio a chryfhau'r trefniadau partneriaethau presennol... Mae'r symud i BGC rhanbarthol... yn ei gwneud hi'n haws i bartneriaid gymryd rhan weithredol"*** *("Cynllun Llesiant ar gyfer Gwent 16/02/2023", tud. 3, paragraff 3, 2023)* *https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s35225/Gwent%20BGC%20Well-being%20Plan.pdf*

Gallai ddarparu hunaniaeth sengl i'r cyhoedd ei chydnabod gyda'r posibilrwydd o wella ymgysylltiad y cyhoedd o ganlyniad.

Gellir rhannu arbenigedd a gwybodaeth rhwng BGC, ac mae gan hyn y potensial i gynyddu cydweithredu rhwng sefydliadau partner gan arwain at berthynas waith fwy effeithlon.

Mae posibilrwydd y gallai drwy gynnwys yr aelodau mewn un bwrdd, ganiatáu strwythur cyflawni mwy deinamig, er enghraifft;

- Cyflwynodd Gwent grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer pob ardal awdurdod lleol o fewn y BGC i ddefnyddio gwasanaethau lleol i gyflawni'r gwaith a nodwyd gan aelodau cenedlaethol a rhanbarthol yn ystod cyfarfodydd.

Anfanteision;

Gallai cyflawni cynlluniau ddioddef os nad oes cysylltiadau gwaith cryf rhwng yr holl BGC.

Mae bygythiad gwirioneddol o golli ymdeimlad o ffocws lleol. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf cydnabyddiaeth gan sefydliadau mwy a/neu wrth gyflwyno cynlluniau a gyflawnir gan y Bwrdd.

Gallai atebolrwydd gael ei wanhau o fewn y BGC oherwydd nifer yr aelodau oni bai eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau llywodraethu a chraffu cryf

- Byddai angen i aelodau gael dealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt pan fydd y BGC yn cael ei sefydlu a beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Byddai angen sefydlu cylch gorchwyl newydd i sicrhau bod gan aelodau ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt, p'un a ydynt yn rhan o'r BGC neu'r pwyllgor craffu.

Sensitifrwydd gwleidyddol ynglŷn ag uno tri Awdurdod Lleol

- Cododd Casnewydd bryderon mewn trafodaethau wrth arwain at uno Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, ynghylch anghenion Casnewydd a'r ffaith y byddent yn naturiol yn wahanol i'r siroedd eraill yn y BGC. Ni ddiystyrodd y Cynghorydd penodol y manteision o weithio gyda'i gilydd ond roedd yn teimlo'n amheus i gefnogi cytundeb a allai weld Casnewydd ar y droed gefn (Cofnodion Cyfarfod Cyngor Dinas Casnewydd, 20 Mehefin 2021, t.4) (https://democracy.newport.gov.uk/documents/s20142/Minutes%2020072021%20Council.pdf?LLL=0)

Gallai uno arwain at weithredu arafach, llai ystwyth.

Gallai blaenoriaethau fod yn wahanol ym mhob ardal o Orllewin Cymru a allai weld heriau wrth benderfynu pa faes i'w datrys.

Byddai angen cyfnewid adnoddau teg ymhlith y BGC gyda phob aelod yn cyfrannu lle bo'n bosibl h.y. staff, sgiliau, gwasanaethau, gwybodaeth ac ati.

## Opsiwn Tri A) - Mae'r tri BGC yn cydweithio

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod y tri BGC yng Ngorllewin Cymru yn cydweithio â'i gilydd yn ffurfiol. Mae hyn yn estyniad o'r berthynas waith gyfredol tuag at gytundeb mwy ffurfiol o rolau a chyfrifoldebau rhwng y BGC. Byddai'r opsiwn hwn yn gweld symud i ymdrechion mwy cydgysylltiedig mewn rhannu a dyrannu adnoddau. Trwy nodi a chytuno pa feysydd cynllunio a chyflawni allai ddefnyddio adnoddau a phrofiad a rennir, gall hyn wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y BGC. Byddai'r Grant Rhanbarthol Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei weinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y tri BGC.

Isod mae'r canllawiau a nodir gan y Ddeddf ynghylch cydweithredu BGC;

*"**48 Cydweithio rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus***

*(1) Gall dau neu fwy o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i gydweithio os ydynt o'r farn y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.*

*(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu fwy o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio ym mha bynnag ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.*

*(3) At ddibenion yr adran hon, mae bwrdd yn cydweithio os ydyw yn -*

*(a)cydweithredu â bwrdd arall,*

*(b)hwyluso gweithgareddau bwrdd arall,*

*(c)cydlynu ei weithgareddau â bwrdd arall,*

*(d)yn arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran, neu*

*(d)yn darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall."*

Manteision

Byddai perthnasoedd gwaith presennol yn cael eu ffurfioli a byddai cyfraniadau gan bob BGC yn cael eu nodi.

Byddai cytundeb ffurfiol i rannu adnoddau ar draws y BGC h.y. staff, sgiliau, gwybodaeth ac ati.

Mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth a fyddai'n arbed ymdrechion yn hytrach na gweithio ar wahân

- Gallai adnoddau cyfunol weld gwell darpariaeth gwasanaethau a throsglwyddo gwybodaeth tra'n osgoi dyblygu ymdrechion

Cefnogi materion ar draws ffiniau, h.y. trafnidiaeth gyhoeddus.

Byddai gan y BGC lais ar y cyd a all arwain at gael mwy o ôl troed yng Nghymru.

Gallai'r BGC ddilyn fframwaith tebyg ar gyfer yr Asesiadau o Les Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol

- Mae Ynys Môn a Gwynedd yn mabwysiadu templedi tebyg wrth gynhyrchu eu llenyddiaeth i sicrhau methodoleg gyson, osgoi dyblygu ymdrechion a hwyluso'r gwaith o ddatblygu strategaethau tuag at nodau cyffredin.

Anfanteision

Byddai angen i'r cyfnewid adnoddau fod yn deg gyda phob BGC yn cyfrannu cymaint â phosibl.

Mae potensial am ddiffyg atebolrwydd o fewn y BGC

- Byddai angen deall a chytuno ar rolau yn glir er mwyn osgoi camddehongli dyletswyddau a chyfrifoldebau.

### Opsiwn tri b) Strwythur cydweithredol posibl – grŵp cydlynu strategol

Gyda canllawiau'r Ddeddf yn caniatáu hyblygrwydd yn strwythur cydweithrediad, gallai hyn weld ffyrdd deinamig o weithio cyn belled â bod pob BGC unigol wedi ymrwymo i gynhyrchu Asesiad o Les Lleol, Cynllun Llesiant Lleol ac Adroddiadau Cynnydd Blynyddol ar sail unigol. Yn ogystal â'r pwyntiau yn **Opsiwn Tri A**), er mwyn hwyluso cydweithrediad agosach ymhlith

aelodau, gellid sefydlu grŵp cydlynu strategol sy'n cynnwys cynrychiolwyr y partneriaid statudol. Gallai hyn roi cyfeiriad i BGC lleol a nodi'r cyfleoedd lle mae'n gwneud synnwyr gweithio ar ôl troed rhanbarthol, yn hytrach nag yn lleol. Gallai hyn ganiatáu i'r 3 BGC dderbyn cyfarwyddyd ynghylch cydweithio rhanbarthol ond dal i ganiatáu yr hyblygrwydd i weithio ar flaenoriaethau lleol fel y gwelant orau.

<u>Manteision</u>

Gellir mynd i'r afael â'r mater o gynrychiolaeth briodol o fewn cyfarfodydd trwy gynnal cyfarfod ar gyfer aelodau lefel uwch sefydliadau statudol yn dod at ei gilydd ar yr un pryd.

Gellir cynnal hyblygrwydd ac ymdeimlad o ffocws lleol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol.

<u>Anfanteision</u>

Gall aelodau gwahoddedig o fewn y BGC fod yn amharod i weithredu ar neu ymwneud â'r gweithgareddau a benderfynir gan yr aelodau statudol os nad yw'r bleidlais yn mynd o'u plaid

- Nid ydynt o dan unrhyw rwymedigaeth i ymuno â'r BGC a gallai hyn weld gostyngiad a cholled mewn cyfranogwyr os ydynt yn cael eu heithrio o gyfarfodydd.

## Opsiwn Pedwar - Dim ond dau BGC sy'n dod at ei gilydd

Nod yr adran hon yw archwilio manteision ac anfanteision dau BGC yn dod at ei gilydd naill ai trwy uno neu gydweithredu heb y trydydd BGC. Mae'r ystyriaethau a'r amodau sy'n ymwneud â uno neu gydweithrediad wedi'u nodi yn yr adrannau blaenorol, felly mae'r adran hon yn cymryd yn ganiataol bod un o'r opsiynau hynny wedi cael ei gymryd gan ddau BGC er mwyn dod â dau at ei gilydd a gadael unig BGC ochr yn ochr. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y BGC ar y cyd a'r manteision a'r anfanteision y maent yn eu hwynebu. Bydd yr unig BGC yn wynebu'r manteision a'r anfanteision a geir yn "Opsiwn Un" gan na fydd unrhyw newid i'w strwythur. Byddai'r Grant Rhanbarthol Cymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei weinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y ddau BGC.

<u>Manteision</u>

Os bydd yn llwyddiannus, gallai annog y trydydd BGC i ymuno yn ddiweddarach

Gellir cyfuno adnoddau gyda'i gilydd

Mae aelodau yn mynychu cyfarfodydd ar yr un pryd

Llai o gyfarfodydd i gyrff cenedlaethol a rhanbarthol fynychu

Bydd gan y BGC ar y cyd ôl troed mwy yng Nghymru

Arbedion graddfa

Hunaniaeth sengl i'w gydnabod gan Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd

Potensial ar gyfer gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd

Anfanteision

Darparu gwasanaethau tameidiog ledled Gorllewin Cymru a allai effeithio ar bartneriaid rhanbarthol

Byddai angen i sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol fynychu dau gyfarfod BGC ar wahân (y BGC ar y cyd a'r unig BGC) a allai achosi oedi wrth gyflwyno a rhannu gwybodaeth.

## Atodiad 1

| Opsiwn | Manteision | Anfanteision | Strwythur | Ystyriaethau gweinyddol |
|---|---|---|---|---|
| **1. Dim newid i'r strwythur** | Gall penderfyniadau fod yn fwy effeithlon a deinamig oherwydd llai o aelodau<br><br>Gall ffocws a hunaniaeth leol aros<br><br>Mae dyraniad adnoddau yn aros fel y mae<br><br>Yn osgoi tarfu ar brosiectau presennol<br><br>Mae atebolrwydd yn aros gyda phob BGC unigol | Pwysau cynyddol ar yr adnoddau i gynhyrchu Asesiadau o Lesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol<br><br>Dyblygu ymdrechion ar draws y rhanbarth<br><br>Aliniad strategol gwannach ar draws Gorllewin Cymru<br><br>Mae cynrychiolaeth briodol gan Aelodau Statudol yn broblem i rai BGCau ar hyn o bryd<br><br>Cyfarfodydd lluosog i Gyrff Cenedlaethol a Rhanbarthol fynychu<br><br>Llai o ddylanwad a chydnabyddiaeth ranbarthol | BGC Sir Gâr<br><br>BGC Ceredigion<br><br>BGC Sir Benfro | Mae pob BGC yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu Hasesiad o Lesiant Lleol, Adroddiad Llesiant Lleol ac Adroddiadau Cynnydd Blynyddol eu hunain<br><br>Tri chylch cynllunio ac ymgynghori lles ar wahân<br><br>Dim newid i strwythur BGC unigol na Chadeirydd/Is-gadeirydd<br><br>Dim newid i'r trefniadau craffu presennol<br><br>Bydd Cylchoedd Gorchwyl unigol yn parhau<br><br>Bydd cymorth gweinyddol unigol yn parhau<br><br>Dim newid i'r trefniadau grant a weinyddir gan un BGC ac a rennir yn gyfartal gyda phob BGC |
| **2. Y tri Bwrdd yn uno** | Arbedion graddfa Gellir cyfuno adnoddau i gynhyrchu Asesiadau o Lesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol ar draws y BGCau i leddfu'r pwysau ar y rhai sy'n cynhyrchu'r dogfennau Llai o gyfarfodydd i aelodau fynychu Gellir cronni adnoddau Adeiladu ar berthnasoedd gwaith presennol Un hunaniaeth i'w chydnabod gan Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd Potensial ar gyfer gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd Rhannu arbenigedd a gwybodaeth Lleihau dyblygu ymdrechion Strwythur cyflawni mwy deinamig | Gallai cyflawni cynlluniau ddioddef os nad oes cysylltiadau gwaith cryf<br><br>Potensial o golli ymdeimlad o ffocws lleol.<br><br>Potensial o golli atebolrwydd o fewn y BGC<br><br>Sensitifrwydd gwleidyddol ynghylch uno tri Awdurdod Lleol<br><br>Cyflenwi Arafach a llai ystwyth<br><br>Gallai blaenoriaethau amrywio ar draws pob ardal Byddai angen i gyfnewid adnoddau fod yn deg gyda phob Awdurdod Lleol yn cyfrannu | Sefydlir un BCG | Byddai Asesiad Sengl o Lesiant Lleol, Cynllun Llesiant Lleol ac Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn cael eu cynhyrchu<br><br>Rhaid penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd i'r Bwrdd<br><br>Rhaid i'r Bwrdd lunio Cylch Gorchwyl ar y cyd<br><br>Rhaid i'r Bwrdd gynnal adolygiad o'r cynlluniau llesiant lleol a oedd mewn grym ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a'r amcanion lleol a nodir yn y cynlluniau hynny<br><br>Byddai pwyllgor craffu ar y cyd yn cael ei sefydlu i adolygu ymdrechion y BGC unedig<br><br>Mae angen mynd i'r afael ag ystyriaethau o ran y grwpiau cyflawni lleol presennol ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | draws y BGC a sut mae'r rhain yn parhau i weithredu ar ôl uno<br><br>Mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogaeth weinyddol—gellid naill ai cylchdroi hyn ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol neu fod yn un tîm<br><br>Bydd y BGC sengl unedig yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i hwyluso eu gweithgareddau |
| **3a. Y tri BGC yn cydweithio** | Byddai perthnasoedd gwaith presennol yn cael eu ffurfioli a chyfraniadau gan bob BGC yn cael eu nodi<br><br>Gellir rhannu a dwyn ynghyd brofiad, adnoddau a sgiliau<br><br>Cydweithio a rhannu gwybodaeth cynyddol<br><br>Cefnogi materion ar draws ffiniau h.y. trafnidiaeth gyhoeddus<br><br>Ôl-troed a llais mwy yng Nghymru<br><br>Gallai'r BGC ddilyn fframwaith tebyg ar gyfer yr Asesiadau o Lesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol | Byddai angen Cyfnewid adnoddau fod yn deg gyda phob BGC yn cyfrannu<br><br>Diffyg atebolrwydd posibl<br><br>Gellir camddeall rolau oni bai eu bod wedi'u nodi a'u cytuno'n glir | Wedi'i gadw - BGC Sir Gâr<br><br>Wedi'i gadw- BGC Sir Geredigion<br><br>Wedi'i gadw - BGC Sir Benfro +<br><br>elfen o gydweithio ffurfiol rhwng y BGCau | Byddai Asesiadau ar wahân o Lesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cynhyrchu, un gan bob BGC<br><br>Gallai BGC ddilyn yr un strwythur a chynorthwyo ei gilydd gyda chynhyrchu adroddiadau, cynlluniau ac asesiadau<br><br>Byddai angen llunio Cylch Gorchwyl/Cytundeb Partneriaeth newydd gan y BGC<br><br>Mae angen ystyried cefnogaeth weinyddol—gellid naill ai gylchdroi hyn ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol neu fod yn un tîm<br><br>Byddai pwyllgor craffu o hyd ar gyfer pob BGC priodol<br><br>Bydd pob rhanbarth BGC yn derbyn ei gyllid ei hun gan Lywodraeth Cymru i hwyluso eu gweithgareddau<br><br>Byddai hyn fel arfer yn cael ei weinyddu gan un BGC ar ran y grŵp a naill ai'n cael ei rannu'n gyfartal neu ei gronni a'i ddyrannu yn ôl y cytundeb cydweithredol. |
| **3b. Y tri BGC yn cydweithio ac yn cyflwyno Grŵp Strategol gydag uwch swyddogion sefydliadau statudol** | Yn cadw manteision Opsiwn 3a a: Mae cynrychiolaeth briodol gan bartneriaid statudol yn cael ei chyfeirio atynt i gyd drwy ddod at ei gilydd ar yr un pryd<br><br>Yn cymryd camau tuag at weithio rhanbarthol ond yn caniatáu hyblygrwydd i weithio ar flaenoriaethau lleol pan fo'n addas | Yn cadw anfanteision Opsiwn 3a a: Efallai y bydd cyfranogwyr gwadd yn amharod i gymryd rhan. | Wedi'i gadw - BGC Sir Gâr<br><br>Wedi'i gadw - BGC Sir Geredigion<br><br>Wedi'i gadw - BGC Sir Benfro +<br><br>Grŵp Cydlynu Strategol | Yn cadw ystyriaethau gweinyddol Opsiwn 3a a: A fyddai pwyllgor craffu ychwanegol yn cael ei sefydlu ar gyfer y grŵp cydlynu strategol? |
| **4. Dim ond dau BGC yn dod ynghyd** | Yn cadw manteision Opsiwn 2 ac: Os yw'n llwyddiannus, gallai annog y trydydd BGC i ymuno yn ddiweddarach os nad yw'n barod<br><br>Gellir cronni adnoddau | Darpariaeth gwasanaeth dameidiog bosibl ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru<br><br>Byddai cyfarfodydd ar wahân o hyd i aelodau Cenedlaethol a Rhanbarthol fynychu | BGC ar y cyd—Dau ardal yn dod at ei gilydd<br><br>BGC unigol | Byddai dau Asesiad o Lesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac Adroddiadau Cynnydd Blynyddol yn lle tri<br><br>Byddai dau bwyllgor craffu - un ar gyfer y BGC ar y cyd ac un ar gyfer yr unig BGC |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Aelodau'n mynychu cyfarfodydd ar yr un pryd<br><br>Llai o gyfarfodydd i gyrff Cenedlaethol a Rhanbarthol fynychu<br><br>Bydd gan y BGC ar y cyd ôl troed mwy yng Nghymru Arbedion maint Un hunaniaeth i'w chydnabod gan Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd<br><br>Potensial ar gyfer gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd | | | Byddai'r BGC ar y cyd yn cronni adnoddau ar draws y BGCau i gynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol, y Cynllun Llesiant Lleol a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol, tra mai dim ond ei adnoddau ei hun y byddai'r unig BGC yn gallu eu defnyddio<br><br>Mae angen ystyried cefnogaeth weinyddol—gellid naill ai gylchdroi hyn ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol neu fod yn un tîm<br><br>Bydd pob rhanbarth BGC (y BGC ar y cyd a'r unig BGC) yn derbyn ei gyllid ei hun gan Lywodraeth Cymru i hwyluso eu gweithgareddau |
| | | | | |

## Atodiad 2

(1)Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i uno os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

(2)Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

F2(3). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4)Os yw dau neu ragor o fyrddau yn uno—

(a)rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon (ac eithrio yn yr adran hon) at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y bwrdd unedig, a

(b)rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal awdurdod lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfunedig yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r bwrdd unedig.

**[**F3(5)Rhaid i fwrdd unedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—

(a)y cynlluniau llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a

(b)yr amcanion lleol a nodir yn y cynlluniau hynny.

(6)Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (5), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynlluniau a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (5)(a) a (b)—

(a)i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a

(b)yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(7)Caiff bwrdd unedig, os yw'n ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant—

(a)daduno, neu

(b)daduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(8)Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant, gyfarwyddo bwrdd unedig—

(a)i ddaduno, neu

(b)i ddaduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(9)At ddibenion is-adrannau (7) ac (8), mae bwrdd unedig—

(a)yn daduno os yw'n peidio â bodoli a bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer ardal pob awdurdod lleol a oedd yn aelod o'r bwrdd unedig;

(b)yn daduno yn rhannol—

(i)os yw'n parhau i fodoli fel y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd dau awdurdod lleol neu ragor, a

(ii)os sefydlir bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân ar gyfer ardal pob awdurdod lleol sydd wedi peidio â bod yn aelod o'r bwrdd unedig.

(10)Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus a sefydlir ar ôl daduno neu ddaduno yn rhannol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—

(a)y cynllun llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a

(b)yr amcanion lleol a nodir yn y cynllun hwnnw.

(11)Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (10), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynllun a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (10)(a) a (b)—

(a)i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a

(b)yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(12)Cyn cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6) neu (11), rhaid i fwrdd ymgynghori ag—

(a)y Comisiynydd;

(b)Gweinidogion Cymru;

(c)unrhyw bersonau eraill y mae'r bwrdd yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(13)Rhaid i fwrdd anfon copi o gynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan is-adran (6) neu (11) at y personau a grybwyllir yn adran 44(6).